Cyfarfod Cyffredinol Cyngor Tref Penrhyndeudraeth, 9 Gorffennaf 2026, 7.00 yh yn y Neuadd Drefol

General Meeting of Cyngor Tref Penrhyndeudraeth* 9 July *2026 at 7.00pm in the Neuadd Drefol

Gall aelodau'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod yn y Neuadd Drefol neu arsylwi'n rhithol drwy gysylltu â ctpenrhyndeudraeth@gmail.com

Members of the public can join the meeting in the Neuadd Drefol or remotely by contacting

ctpenrhyndeudraeth@gmail.com

1. **Croeso/*Welcome:*** Croesawyd pawb/ *Welcome to all.*

2. **Presennol ac Ymddiheuriadau/ *Present and apologies***
   2.1 Presennol/*Present:* Einir Williams (Cadeirydd), Ashley Jones (is-gadeirydd), Gwyn Vaughan Jones, Sarah Roberts, Nia Jones, Emma Fon Orr, Sion Harris, Steven Murray (Clerc Asedau) a Rhiannon Davies-Jones (Clerc).
   2.2 Ymddiheuriadau/*Apologies:* Y Cyng. Meryl Roberts, Tony Owen.

3. **Cymeradwyo cofnodion Mehefin a cofnodion cyfarfod arbennig Mehefin / *Approve June minutes and extraordinary June meeting* -** Cymeradwywyd gan/*accepted by SR a EFO.*

4. **Datgan buddiant, cysylltiad, diddordeb/ *Declaration of interest, benefits, connection* -** Dim/*None.*

5. **Materion yn codi o'r cofnodion blaenorol/*Matter arising from the previous minutes* -** Dim/*None.*

6. **Adroddiad ariannol / *financial report***
   6.1 Y llyfr arian/ *Cash book*

   <u>I FEWN</u>

R&M Utilities - rhent Maes parcio	£800.00
Dref Werdd - rhent Neuadd Drefol	£100.00
Pobl Odd - rhent Neuadd Drefol	£20.00
Meryl Roberts - rhent Neuadd Drefol	£50.00
Pritchard a Griffiths - claddu	£2,115.00

Zurich	£218.23

ALLAN

BT - internet	£39.54
Alan Williams - cynnal a chadw	£270.00
Cameron Jones - torri gwair	£2,050.00 (cynnwys gwaith ychwannegol)
Ffon Clerc	£13.00
NEST - pensiwn	£62.79
Dwr Cymru - dwr swyddfa	£94.85
Rhiannon - Cyflog Clerc	£1794.39
Steven - Cyflog	£1278.80
PAYE & NIC	£392.44
British Gas - gas swyddfa	£50.31
Xero UK Ltd - cyfrifon	£44.40
Smartest energy - trydan swyddfa	£49.62
Scottish Power - trydan minffordd	£118.50
Cyngor Gwynedd - gwastraff	£407.00 (gwastraff masnachol - mynwent)
Chat GPT	£7.00
Zoom	£16.79
Cymorth Cynllunio - hyfforddiant	£40.00
Fflagiau	£24.50
Richard Gibb - gosod fflagiau	£120.00
Compost ir parc	£30.00 (grant biomiwriaeth)
Gardencraft - planhigion	£57.89 (grant biomiwriaeth)
Lidl - nwyddau swyddfa	£2.65
SLCC - aelodaeth	£268.00
B&Q - paent	£54.00
Arag Law - taliad cyntaf	£3,511.81

7. Eitemau i'w trafod/ *Items for Discussion*

7.1 Cronfa Cefnogi Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned 2026/*Town and Community Councils Support Fund 2026* - Adolygodd y Cynghorwyr y ddau ddyfynbris a dderbyniwyd, a chytunwyd fod y ddau yn llawer uwch na swm y grant o £7,000. Cadarnhaodd RDJ ei bod wedi siarad â CG, a'u bod wedi cadarnhau nad oedd unrhyw gyllid ychwanegol ar gael, ac os oedd y dyfynbrisiau yn uwch na'r swm a oedd yn cael ei gynnig, y dylid ystyried prosiect arall. Awgrymodd AJ y dylid cysylltu â'r cwmnïau i weld beth y gellid ei osod am £7,000, ac yna adolygu'r dyfynbrisiau yn y cyfarfod nesaf. Cytunwyd ar hyn/ *The Councillors reviewed the two quotes received and it was agreed that both far exceeded the sum of £7000 from the grant. RDJ confirmed that she had already spoken with CG and they had confirmed that no additional funding was available and that if the quotes were in excess of the sum being offered then we should consider another projects instead. AJ suggested that we contact the companies to see what we*

could get installed for £7000, and we could then review the quotes at the next meeting. This was agreed.

7.2 Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Plas Tan y Bwlch/ *Eryri National Park Authority - Plas Tan y Bwlch* - Darllenodd EW yr e-bost a dderbyniwyd gan NJ o'r Parc Cenedlaethol, a chytunwyd fod y Cynghorwyr yn hapus i anfon llythyr o gefnogaeth mewn perthynas â'u symud i Blas Tan y Bwlch/ *EW read out the email received from NJ at the Parc Cenedlaethol and it was agreed that the Councillors were happy to send a letter of support regarding their move to Plas Tan y Bwlch.*

7.3 Rhandiroedd Penrhyndeudraeth/*Penrhyndeudraeth Allotments* - Cadarnhaodd RDJ ei bod wedi drafftio e-bost y mis diwethaf, a anfonwyd at y Cynghorwyr ar 22 Mehefin er mwyn iddynt ei adolygu a'i gymeradwyo. Cadarnhaodd pob Cynghorydd eu bod yn hapus gyda'r e-bost ac yn fodlon iddo gael ei anfon at y Grŵp Rhandiroedd Penrhyn/ *RDJ confirmed that she had drafted an email last month which had been sent to the Councillors on the 22nd June for them to review and approve. All Councillors confirmed that they were happy with the email and confirmed that they were happy for it to be sent to the proposed Penrhyn Allotments Group.*

8. **Eitemiau sefydlog/*Regular items***
   8.1 Mynwent Minffordd *Cemetery* - Dim byd i'w adrodd/ *Nothing to report.*
   8.2 Parc Mileniwm/ *Millennium Park* - Mae'r llwybr ar ben y parc wedi cael ei glirio. Rydym bellach wedi clywed yn ôl gan yr heddlu ynghylch y springer a gafodd ei ddifrodi, ond oherwydd yr amser a gymerodd iddynt gysylltu'n ôl â ni, mae'r recordiad fideo bellach wedi'i ddileu. Awgrymwyd y dylid cysylltu ag ET yng Nghyngor Gwynedd i weld a fyddai'n bosib cael caniatâd i gymryd copi o'r recordiad CCTV heb fod angen i swyddog heddlu fod yn bresennol. Cytunodd pawb mai dyma fyddai'r ffordd orau o fynd ati. Cadarnhaodd RDJ ei bod wedi clywed yn ôl gan GL Jones, ac y bydd y siglen chwarae yn cael ei thrwsio cyn diwedd y mis/ *The path at the top of the park has been cleared. We have heard from the police now regarding the broken springer but due to the length of time it has taken for them to get back in touch with us, the video recording has now been deleted. It was suggested that we get in touch with ET at Cyngor Gwynedd to see if we could have permission to take a copy of the recording from the CCTV, without needing to have a police officer present. All agreed that this would be the best approach. RDJ confirmed that she had heard back from GL Jones, and the swing will be fixed before the end of the month.*
   8.3 Cae Cookes - Rydym yn dal i aros am ymateb gan Hochief ynglŷn â'r samplau pridd a dŵr./ *We are still waiting to hear back from Hochief regarding the water and soil samples.*
   8.4 Cae Chwarae Minffordd *Playground* - Dywedodd AJ ei fod wedi mynd i edrych ar y rowndabowt, ac mai ychydig mwy o saim sydd ei angen arno/ *AJ said that he had been to inspect the roundabout, and it just needs grease due to its age.*

8.5 Maes y Parc - Diolchodd SH i CTP am ei gyfraniad tuag at y gwaith o atgyweirio'r caeau pêl-droed. Dywedodd hefyd fod y tîm wedi ennill yn erbyn Bermo y noson gynt, ond mynegodd bryder bod nifer y chwaraewyr yn gostwng. Byddai croeso mawr i chwaraewyr newydd ymuno er mwyn helpu i gryfhau'r timau ar gyfer y tymor nesaf. Dywedodd SH hefyd y bydd digwyddiad haf Cyfeillion Cefn Coch yn cael ei gynnal ar y caeau pêl-droed ddydd Sul rhwng 12.00yp a 3.00yp, a bod croeso i bawb fynychu/ *SH thanked CTP for its contribution towards the repairs to the football fields. SH also advised that the team won against Barmouth the previous evening, but expressed concerns about player numbers declining. New players would be very welcome to help strengthen the teams for next season. SH also advised that the Cyfeillion Cefn Coch Summer Event will be held on the football fields on Sunday from 12.00pm until 3.00pm, and everyone is welcome to attend.*

8.6 Ffyrdd a parcio / parking and road - Cododd nifer o Gynghorwyr bryderon ynglŷn â cherbydau yn goryrru drwy Benrhyn er gwaethaf y terfyn cyflymder o 20mya. Nodwyd fod y rhan fwyaf o'r cerbydau sy'n goryrru yn ymddangos fel pe baent yn teithio o gyfeiriad Porthmadog i Benrhyn. Trafododd yr Aelodau'r posibilrwydd o osod arwydd electronig i atgoffa gyrwyr o'r terfyn cyflymder ger yr arwydd 20mya presennol, er mwyn tynnu sylw gyrwyr at yr angen i leihau eu cyflymder. Fel dewis arall, awgrymwyd y dylid gofyn i Heddlu Gogledd Cymru leoli'r uned gorfodi cyflymder *"Arrive Alive"* ger Maes Deudraeth, lle'r oedd wedi'i lleoli yn flaenorol. Cytunodd yr Aelodau â'r cynigion hyn. Cadarnhaodd RDJ y byddai'n cysylltu â'r Adran Priffyrdd i drafod y mater ymhellach/ *A number of Councillors raised concerns regarding vehicles speeding through Penrhyn despite the 20mph speed limit. It was noted that the majority of speeding vehicles appear to be travelling from the direction of Porthmadog into Penrhyn. Members discussed the possibility of installing an illuminated speed reminder sign near the existing 20mph sign to make drivers more aware of the need to reduce their speed. Alternatively, it was suggested that North Wales Police be asked to deploy the "Arrive Alive" speed enforcement unit near Maes Deudraeth, where it had previously been stationed. All Members agreed with these proposals. RDJ confirmed that she would contact Highways to discuss the matter further.*

9. Gohebiaeth/ Correspondence

9.1 Un Llais Cymru - E-Bwletin Rhif 26/ *One Voice Wales - E-Bulletin No.26* - Er gwybodaeth/*FYI.*

9.2 E-bost gan Comisiwn Ffiniau i Gymru - Ymchwil CDFfC/ *Email from the Boundary Commission for Wales - Research DBCC* - Er gwybodaeth/*FYI.*

9.3 Cyngor Gwynedd - Rhybudd - Caead Argyfwng Ffordd o Min y Traeth i Abergafren, Minffordd, Penrhyndeudraeth/ *Notice - Emergency Closure - Road from Min y Traeth to Abergafren, Minffordd, Penrhyndeudraeth* - Er gwybodaeth/*FYI.*

9.4 Cyngor Gwynedd - Llythyr Penderfyniad - Ysgol y Garreg/ *Decision Letter* - Er gwybodaeth/*FYI.*

9.5 Cyngor Gwynedd - Rhaglen Waith - Gorffennaf 2026/ *Work Schedule - July 2026* - Er gwybodaeth/*FYI.*

9.6 Un Llais Cymru - Nodyn Datblygu Ymarfer 28/ *Practice Development Note 28* - Er gwybodaeth/*FYI.*

9.7 Y Dref Werdd - Rhaglen mis Gorffennaf/ *July Schedule* - Er gwybodaeth/*FYI.*

10. Materion Cynllunio/*Planning Matters* - Dim/*None.*

11. Adroddiadau/*Reports*

11.1 Adroddiad misol Cynghorydd sir Meryl Roberts *County Councillor monthly report* - Cadarnhaodd EW fod MR wedi anfon e-bost at holl Gynghorwyr gyda'i hadroddiad misol, a gofynnodd EW iddynt i gyd adolygu'r e-bost/ *EW confirmed that MR had sent all the Councillors an email with her monthly report and EW asked if they could all review the email.*

12. Mater caeedig/ *Closed matters*

12.1 Eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd / *Exclusion of the Press and Public*
Penderfynu, yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, i eithrio'r wasg a'r cyhoedd oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod/ *To resolve, in accordance with Section 1(2) of the Public Bodies (Admission to Meetings) Act 1960, that the press and public be excluded from the remainder of the meeting due to the confidential nature of the business to be transacted.*

12.2 Materion Cyflogaeth/ *Employment Matters*

Dyddiad cyfarfod nesaf 10 Medi 2026 7yh yn y Neuadd Drefol/ Date and location of next meeting 10 September 2026 7pm in the Neuadd Drefol